

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO	PLANNING POLICY COMMITTEE
DYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2024 am 2.00 o'r gloch yp	WEDNESDAY, 21 FEBRUARY 2024 at 2.00 p.m.
CYFARFOD HYBRID - YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs Mairwen Hughes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol/The Independent Group

Ieuan Williams (**Is-gadeirydd/Vice-Chair**)

Llafur Cymru / Welsh Labour

Pip O'Neill

Plaid Cymru / The Party of Wales

T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones (**Cadeirydd/Chair**), Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor a Robin Williams

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Robert Ll Jones, Liz Wood

R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gafwyd ar 19 Hydref, 2023.

4 **DIWEDDARIAD AR Y SEFYLLFA MEWN PERTHYNAS Â STAFFIO'R TIM POLISI
CYNLLUNIO NEWYDD A'R CYNNYDD CYCHWYNNOL TUAG AT BARATOI CYNLLUN
DATBLYGU LLEOL NEWYDD** (Tudalennau 5 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 19 Hydref 2023

YN BRESENNOL:	Cynghorydd John Ifan Jones (Cadeirydd) Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd) Cynghorwyr T LI Hughes MBE, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor a Robin Williams
WRTH LAW:	Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Uwch Swyddog Cynllunio (DFJ), Rheolwr Polisi Cynllunio (JIW), Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr Pip O'Neill a Liz Wood
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim

Oherwydd materion technegol, cytunodd y Pwyllgor i ddechrau'r cyfarfod hanner awr yn hwyrach. Dechreuodd y Pwyllgor am 10.30 a.m.

1 YMDDIHEURIADAU

Fel nodwyd uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Heb dderbyn unrhyw ddatganiad.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2023 yn gywir.

4 DIWEDDARIAD AR SEFYDLU TÎM POLISI CYNLLUNIO NEWYDD A PHARATOI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol; y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor hwn; Recriwtio Tîm Polisi Cynllunio newydd; Cytundeb Darparu a Chynllun Cyfraniad Cymunedol; Erthygl 4 a Hyfforddiant ar gyfer Aelodau.

- **Adroddiad Monitro Blynyddol**

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod rhaid monitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn flynyddol, a rhaid ei gyflwyno i'r Swyddfa Gymreig erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'r

Adroddiad Monitro Blynyddol wedi'i baratoi gan Swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd blaenorol, a oedd yn cael eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd, gan gofio fod trefniadau cydweithio ar waith yn ystod y cyfnod monitro hwnnw. Atodwyd copi o'r adroddiad yn Atodiad 1. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhestru'r 15 canfyddiad allweddol fel yr amlygir yn yr adroddiad ar gyfer y Pwyllgor. Bydd y wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno yn yr adroddiad yn dystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer datblygu polisiau yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn, fydd yn adlewyrchu anghenion yr Ynys o safbwyntiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

- **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio**

Amlygwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio yn Atodiad 2 yr adroddiad. Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn cwrdd yn fisol. O ran adroddiadau y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, bydd adborth a safbwynt y Pwyllgor yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau o'r fath.

PENDERFYNWYD derbyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

- **Recriwtio Tîm Polisi Cynllunio Newydd**

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod pecynnau recriwtio newydd wedi cael eu paratoi gyda'r bwriad o annog mwy o ddiddordeb yn y swyddi gwag o fewn y Tîm Polisi Cynllunio. Cafodd y 4 swydd eu hysbysebu ar 22 Medi, 2023, gyda'r dyddiad cau ar 9 Hydref 2023. Nododd fod y broses wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer o unigolion yn ymgeisio ar gyfer y swyddi; bydd cyfweiliadau ar gyfer y 4 swydd yn cael eu cynnal yn fuan.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar recriwtio Tîm Polisi Cynllunio newydd.

- **Cytundeb Darparu a Chynllun Cyfraniad Cymunedol**

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio y bydd y cyfnodau paratoi ar gyfer cwblhau'r Cynllun Datblygu Lleol yn dibynnu ar amserlen rymus ar gyfer y camau sydd angen eu cwblhau yn ôl Cytundeb Darparu ffurfiol, y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor llawn gytuno arno. Bydd angen dilyn Strategaeth Cyfraniad Cymunedol fydd yn rhoi cyfle i gymunedau lleol, perchnogion tir, datblygwyr, busnesau, ymgynghorwyr statudol a rhanddeiliaid sydd wedi dangos diddordeb i gynorthwyo a chyfrannu'n effeithiol at lunio Cynllun Datblygu Lleol. Bydd ymgynghori gyda Swyddogion perthnasol yn y Cyngor yn allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi, a bwriad hyn yw sefydlu Grŵp o Swyddogion arbenigol sy'n cynrychioli gwasanaethau gwahanol o fewn y Cyngor, a bydd yn cael ei Gadeirio gan y Prif Weithredwr. Roedd aelodau eisiau gwybod a fyddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn un o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorir â nhw mewn perthynas â'r Strategaeth Cyfraniad Cymunedol, gan nad ydynt yn ymateb fel ymgynghorai statudol i geisiadau cynllunio. Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn un o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorir â nhw.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad mewn perthynas â'r Cytundeb Darparu a'r Cynllun Cyfraniad Cymunedol.

- **Cyfarwyddyd Erthygl 4**

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth cynllunio, mewn ymateb i'r pwysau sy'n wynebu trigolion lleol yn eu hymdrechion i brynu neu rentu cartref yn eu cymunedau oherwydd ail gartrefi a chartrefi gwyliau, gan roi pwerau i Awdurdodau Cynllunio Lleol fynd i'r afael â phryderon o'r fath drwy addasu'r mesurau rheoli yn ôl amgylchiadau lleol, sy'n cynnwys:-

- Addasu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 i greu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi (Dosbarth Defnydd C3), Ail Gartrefi (Dosbarth Defnydd C5) a Llety Gwyliau Tymor Byr (Dosbarth Defnydd C6);
- Addasu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 er mwyn galluogi newidiadau rhwng dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi, Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr;
- Addasu Polisi Cynllunio Cymru er mwyn nodi'n glir, pan fo'n berthnasol, fod rhaid ystyried nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byw mewn ardal leol wrth ystyried gofyniad tai a pholisïau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

O ystyried y pwysau ar y farchnad eiddo lleol yn sgil y galw am ail gartrefi a llety gwyliau ar Ynys Môn, a'r ddarpariaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, bydd yn rhaid i'r Cyngor Sir gwblhau gwaith er mwyn ystyried a ddylid cymryd cyfeiriad o'r fath ar yr Ynys. Bydd y gwaith hwn o fewn cylch gorchwyl y Cydlynnydd Her Tai, ac mae'r swydd yn cael ei hysbysebu yn y broses recriwtio barhaus. Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ac mae'r Awdurdod hwn wedi ymateb i'w proses ymgynghori. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch a yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn adborth i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod ymatebion sylweddol wedi'u cyflwyno yn gwrthwynebu'r ymgynghoriad Erthygl 4 yng Ngwynedd. Nododd fod Swyddogion o'r Cyngor hwn wedi mynychu digwyddiad diweddar wedi'i drefnu gan Gyngor Gwynedd, ac roedd yn amlwg y bydd angen gwneud gwaith sylweddol os yw'r Awdurdod hwn am gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Cyfeiriwyd at y cynllun peilot a gwblhawyd gan Gyngor Gwynedd yn Ardal Dwyfor, a'r adnoddau ariannol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd aelodau fod trigolion ar yr Ynys yn bryderus nad yw'r broses o symud Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei flaen wedi digwydd. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei bod hi'n bwysig dysgu gwersi o brofiadau Cyngor Gwynedd, a deall cymhlethdod y gwaith a gwblhawyd o ran Cyfarwyddyd Erthygl 4.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar Gyfarwyddyd Erthygl 4.

- **Hyfforddiant**

Dywedodd y Rheolwr Polisi cynllunio fod rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau yn cael ei pharatoi, a bydd yn cynnwys trosolwg o'r broses paratoi cynllun datblygu fydd yn cael ei gefnogi gan sesiynau mwy manwl yn edrych ar elfennau penodol o'r broses, gan ganolbwyntio ar feysydd gwaith penodol. Nododd, gan y bydd rhai elfennau o'r Cynllun Datblygu Lleol angen eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, byddai'n fanteisiol i'r holl Aelodau Lleol dderbyn hyfforddiant. Dywedodd y Cyngorydd Nicola Roberts, a'r Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd, ei bod hi'n bwysig fod yr holl Aelodau Etholedig gael cyfle i dderbyn hyfforddiant. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod angen sefydlu amserlen glir er mwyn sicrhau bod cymorth ac arweiniad ar gael i Aelodau wrth iddynt baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd bod modd cynnal sesiynau hyfforddi ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor hwn, wrth i elfennau gwahanol o'r Cynllun Datblygu Lleol gael eu trafod.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad ar y Rhaglen Hyfforddi.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am.

**CYNGHORYDD JOHN I JONES
CADEIRYDD**

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Polisi Cynllunio
Dyddiad:	21 Chwefror 2024
Pwnc:	Diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â staffio'r Tîm Polisi Cynllunio newydd a'r cynnydd cychwynnol tuag at baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.
Aelod(au) Portffolio:	Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd)
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)
Ffôn:	
E-bost:	johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Perthnasol i'r holl Aelodau Etholedig

1.0 Pwrpas yr adroddiad


1.1 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd;
- Darparu rhaglen waith ddangosol ar gyfer y Tîm;
- Trafod materion yn ymwneud â'r Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
- Sefydlu Grŵp Uwch Swyddogion yn fewnol i roi arweiniad a chyfarwyddyd mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd;
- Trafod y darpariaethau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Monitro Blyneddol ar gyfer 2024;
- Rhoi diweddariad i'r aelodau ar faterion deddfwriaethol yn gysylltiedig ag ail gartrefi a llety gwyliau a phwerau i gyfyngu hawliau datblygu a ganiateir yn y cyswllt hwn; a
- Darparu manylion ynglŷn â'r hyfforddiant i aelodau ar faterion yn ymwneud â'r polisi cynllunio a'r gwaith o baratoi'r cynllun datblygu newydd.

2.0 Staffio

2.1 Yn dilyn cyfweiliadau penodwyd tri ymgeisydd llwyddiannus i'r pedair swydd wag yn y Tîm Polisi Cynllunio yn ystod Tachwedd 2023. Oherwydd cyfnodau

rhybudd a gwyliau'r Nadolig, cytunwyd y byddai'r tri swyddog newydd yn dechrau yn eu rolau ar 8 Ionawr 2024. Mae strwythur y Tîm i'w weld isod:



Strwythur y Tîm Polisi Cynllunio

2.2 Hysbysebwyd swydd Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio ar 13eg Chwefror yn dilyn newidiadau i'r fanyleb person cafodd eu hystyried a'u cymeradwyo gan y panel penodiadau. Os oes diffyg capasiti o hyd o ran gweithgareddau gwaith, gellir gofyn am gymorth allanol drwy'r fframwaith contractwyr.

3.0 Rhaglen Waith

3.1 Bydd rhaglen waith y tîm yn cael ei rhannu i dasgau hanfodol yn ymwneud â pharatoi'r CDLI a pharau i ddarparu cyngor ac ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd ac ymatebion a dderbynnir i ymgynghoriadau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.

3.2 Mae'r rhaglen waith ddangosol sy'n amlygu'r tasgau sydd wedi'u rhaglennu ar gyfer y chwe mis nesaf ynghlwm yn **Atodiad 1**.

4.0 Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau

4.1 Bwriedir paratoi ac ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024 er mwyn i'r Cyngor allu eu cytuno cyn iddynt gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith cychwynnol o baratoi CDLI yn amodol ar yr amserlen a fydd wedi'i chynnwys yn y Cytundeb Cyflawni ffurfiol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei gytuno. Mae'r gwaith o ddrafftio'r Cytundeb Cyflawni yn mynd rhagddo ac mae'n seiliedig ar y drafft a baratowyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r trefniadau cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ddod i ben. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn yn nodi y bydd yr holl adroddiadau a'r dogfennau drafft sy'n cael eu paratoi fel rhan o'r broses o baratoi CDLI yn mynd gerbron y Pwyllgor er mwyn rhoi cyfle iddo ddylanwadu ar y Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau.

- 4.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni terfynol yn rhan bwysig a chyfreithiol o'r broses o baratoi CDLI ac mae'n rhan o'r cytundeb swyddogol rhwng y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw wyriadau o'r Cytundeb Cyflawni sydd heb eu cytuno gan Lywodraeth Cymru yn profi cadernid y Cynllun.
- 4.3 Bydd dwy ran i'r Cytundeb Cyflawni:
- **Yr Amserlen** – a fydd yn nodi'r dyddiadau pendant ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol hyd at y cyfnod Adneuo a'r dyddiadau dangosol hyd at fabwysiadu'r Cynllun;
 - **Y Strategaeth Cynnwys Cymunedau** – a fydd yn nodi pwy y bydd y Cyngor Sir yn cysylltu â hwy wrth baratoi'r CDLI, sut a phryd y gall swyddogion y Cyngor Sir, aelodau etholedig, y cyhoedd, grwpiau rhanddeiliad lleol â diddordeb a datblygwyr gyfrannu at y broses a beth fydd yn digwydd i'r ymatebion.
- 4.4 Bydd y Cytundeb Cyflawni hefyd yn nodi sut y bydd y CDLI yn cael ei asesu yn unol â gofynion y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol drwy Werthusiadau Cynaliadwyedd a fydd yn cynnwys Asesiadau Effaith Integredig yn cynnwys Asesiad o Effaith y Cynllun ar y Gymraeg.
- 4.5 Mae'n hanfodol bod staff ac adnoddau ariannol digonol yn cael eu hymrwymo i gyflawni'r camau amrywiol hyn fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI.
- 4.6 Bydd y cynnydd o ran datblygu'r CDLI newydd yn cael ei fonitro a'i adolygu yn erbyn gofynion y Cytundeb Cyflawni i sicrhau bod y gwahanol gamau sydd wedi'u hamlinellu yn yr amserlen yn cael eu cyrraedd / cyflawni yn unol â'r dyddiadau sydd wedi'u nodi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid adolygu a diwygio'r Cytundeb Cyflawni:
- Os ydi'r broses ar ei hôl hi (3 mis)
 - Os oes rhaid gwneud newidiadau sylweddol i'r Cytundeb Cynnwys Cymunedau
 - Os oes newidiadau sylweddol o ran yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor
 - Os bydd deddfwriaethau, rheoliadau neu ganllawiau newydd yn cael eu cyflwyno yn y DU neu yng Nghymru sy'n mynnu bod gweithdrefnau neu dasgau newydd yn cael eu rhoi ar waith
 - Os oes unrhyw newidiadau eraill a all gael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni'r cynllun yn unol â'r Cytundeb Cyflawni.

Os bydd rhaid adolygu'r Cytundeb Cyflawni, byddwn yn ymgynghori â'r cyrff penodol yn ogystal â chael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn gwneud hynny.

- 4.7 Mewn perthynas â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, mae'r Rheoliadau CDLI yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r gymuned yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLI. Un o brif amcanion y system Cynlluniau Datblygu yw y dylai Cynlluniau fod yn seiliedig ar waith ymgysylltu cynnar, effeithiol ac ystyrlon â'r gymuned er mwyn deall ac ystyried pob math o wahanol safbwyntiau (Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu, Mawrth 2020).

- 4.8 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi sut a phryd y bydd cymunedau yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses CDLI er mwyn rhoi cyfle i gymunedau helpu i ddylanwadu ar gynnwys y CDLI yn effeithiol. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn nodi beth mae'r Cyngor Sir yn bwriadu'i wneud os oes digon o amser, ac, os oes angen, gellir cynnwys ychwaneg o gyfleoedd ymgysylltu.
- 4.9 Bydd disgwyl i'r cyhoedd, busnesau, tîrfeddianwyr, datblygwyr, cyrff ymgynghorol penodol a chyrff ymgynghori cyffredinol gymryd rhan yn y broses. Mae cronfa ddata o gysylltiadau eisoes wedi cael ei pharatoi yn ystod y gwaith o baratoi'r CDLIC a bydd yn cael ei defnyddio fel sail i'r gronfa ddata ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r CDLI newydd. Mae gan bawb yr hawl i gael eu cynnwys neu eu hepgor o'r gronfa ddata ar unrhyw adeg.
- 4.10 Bydd rhaid cwblhau Asesiad Cynaliadwyedd ar gyfer pob cam o'r broses o baratoi'r CDLI ac, er mai ymarfer technegol yw hyn yn gyffredinol, bydd cyfle i'r rheiny sydd â diddordeb yn yr ymarfer gyflwyno sylwadau. Bydd y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r Cytundeb Cyflawni yn rhan o'r adroddiad cwmpasu a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.
- 4.11 O ran cyfranogiad gwleidyddol, bydd pob aelod etholedig yn derbyn gwybodaeth ar adegau pwysig drwy gydol y broses o baratoi'r CDLI, er enghraifft:
- trafodaeth ynglŷn â'r weledigaeth; nodau strategol ac amcanion ar gyfer y CDLI;
 - ystyried y strategaeth a ffeirir; a
 - pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ynglŷn â materion penodol yn ymwneud â safleoedd a setliadau.

Bydd gan yr Aelodau ran bwysig i'w chwarae hefyd o ran eu gwybodaeth leol, a byddant yn gweithredu fel "hyrwyddwyr" er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'u cymunedau a hwyluso'r broses o lunio'r CDLI. Wrth gyfrannu at y broses fe ddylai'r cynghorwyr gadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau a derbyn arweiniad gan y Pwyllgor Safonau rhag ofn iddynt gael eu dylanwadu wrth wneud argymhellion a phenderfyniadau yn ystod y pwyllgorau perthnasol yn rhinwedd eu rôl.

- 4.12 Bydd yn hanfodol ymgynghori â swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI. Byddwn yn sefydlu grŵp a fydd yn cynnwys swyddogion o bob gwasanaeth. Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Bydd y grŵp yn trafod materion penodol, e.e. tai, yr economi, addysg, a materion yn ymwneud ag ardaloedd penodol er mwyn cyflwyno a thrafod materion yn ymwneud â'r CDLI. Bydd trafodaethau'r grŵp yn cyfrannu ar y Strategaeth a Ffeirir ar gyfer y CDLI a fydd yn cael ei hystyried ar lefel wleidyddol.

5.0 Y Grŵp Uwch Swyddogion

- 5.1 Bydd grŵp o uwch swyddogion, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithreder, yn cael ei sefydlu a bydd y grŵp yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn:
- Sicrhau bod y Cyngor cyfan yn cael cyfrannu at y gwaith o lunio a pharatoi'r CDLI newydd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion yr Ynys a'r heriau; a
 - Darparu arweiniad a chyfarwyddyd mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.
- 5.2 Bydd swyddogion arbenigol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd i rannu eu harbenigedd yn ôl y galw. Mae Cylch Gorchwyl wedi cael ei ddrafftio sy'n nodi pwrpas a llywodraethiant y grŵp ac mae copi ar gael yn **Atodiad 2**.
- 5.3 Bydd y grŵp yn cyfarfod yn fisol yn y lle cyntaf ond bydd modd cwrdd yn amlach os oes angen. Bydd adborth a barn y Grŵp yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio a'u cymeradwyo ganddo lle bo angen.

6.0 Adroddiad Monitro Blynyddol 2024

- 6.1 Mae monitro polisiâu'r CDLIC yn ofniad statudol. O'r herwydd, bydd rhaid paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2024. Rhaid cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2024. Gan fod y CDLIC wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd â Chyngor Gwynedd mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl un adroddiad ar y cynllun unigol hwn. Fodd bynnag, gan fod y trefniadau cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar faterion polisi wedi dod i ben bydd rhaid rhoi dull gwahanol ar waith eleni ac ar gyfer y tri adroddiad sydd yn weddill hyd nes y bydd y CDLIC wedi cyrraedd diwedd ei oes.
- 6.2 Yn ystod cyfarfod diweddar gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd, trafodwyd y gwahanol opsiynau o ran sut y gellid rhyddhau'r baich o gynhyrchu adroddiad ar gyfer gweddill oes y Cynllun gan fod y cytundeb cydweithio wedi dod i ben. Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud nad oes ganddynt yr adnoddau i gynhyrchu adroddiad ar y cyd fel y gwnaethant yn 2023 ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud unwaith eto eu bod yn ffafrio adroddiad ar y cyd. Fodd bynnag, mae Cyngor Gwynedd wedi dweud bod ganddynt adnoddau i ymdrin â rhai o'r elfennau lleol os caiff rhai o brif elfennau'r Cynllun eu trin fel un, sy'n awgrymu mai'r opsiwn a ffefrir yw Adroddiad Monitro Blynyddol ar y cyd wedi'i gwtogi.
- 6.3 Er yr uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn agored i drafodaeth ynglŷn â derbyn adroddiadau gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol ac y gellid ymestyn yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau ar gyfer 2024 hyd at ar ôl cyfnod y Nadolig cyn belled bod cyfiawnhad priodol dros wneud hynny.

- 6.4 Er eu bod yn gwerthfawrogi'r trafferthion staffio yn y Swyddogaeth Cynllunio o ran recriwtio staff i'r Tîm Polisi Cynllunio newydd, pwysleisiodd y swyddogion o LIC bod angen parhau i fonitro gweithgareddau er mwyn casglu data priodol fel sail i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun newydd.
- 6.5 Bydd rhaglen fonitro'n cael ei rhoi ar waith yn fuan ac mae'n bosib y bydd rhaid defnyddio darparwyr allanol drwy'r cytundeb fframwaith gan fod llawer iawn o waith i'w wneud mewn cyfnod gweddol fyr.
- 6.6 Bydd y Tîm Polisi Cynllunio'n parhau i drafod gyda chydweithwyr o Gyngor Gwynedd pan fydd rhaid cyflwyno data ar y cyd i amlinellu cynnydd mewn perthynas â dangosyddion blaenoriaeth y CDLIC (ee tai, datblygu economaidd, gwella bioamrywiaeth). Yn yr un modd bydd y trafodaethau'n parhau gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r ffordd orau o gyflwyno'r data i LIC. Ar wahân i hyn, bydd adroddiad sy'n canolbwyntio ar Ynys Môn yn cael ei baratoi i amlinellu'r cynnydd mewn perthynas â dangosyddion eraill y Cynllun gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ym mis Medi 2024 i'w gytuno cyn ei gyflwyno i LIC erbyn 31 Hydref. Os bydd unrhyw oedi, bydd rhaid cysylltu â chydweithwyr yn LIC i ofyn am estyniad.

7.0 Ail dai a llety gwyliau tymor byr (Cyfarwyddyd Erthygl 4)

- 7.1 Gan fod gan Gyngor Gwynedd brofiad diweddar o fwrw 'mlaen â'r maes gwaith hwn a chan bod ein Cydlynnydd Her Tai Lleol wedi dechrau yn ei swydd, penderfynwyd y byddai'n fanteisiol i Ynys Môn pe byddai'r swyddog perthnasol o Gyngor Gwynedd a'r Cydlynnydd Her Tai Lleol yn cwrdd i drafod y maes gwaith hwn. Roedd y cyfarfod cychwynnol yn ddefnyddiol iawn ac mae wedi darparu cyd-destun ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn. Yn unol â'n hymateb i ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar gyflwyno'r Cyfarwyddyd, bydd y cynnydd y mae Gwynedd yn ei wneud yn y maes hwn yn rhoi arweiniad i ni.
- 7.2 Mae penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i symud i'r cyfeiriad hwn hefyd wedi'i nodi ac rydym wedi cysylltu â'r Parc gan ein bod yn awyddus i ddysgu o'u profiadau hwy gan y bydd yn rhaid i Ynys Môn ystyried y mater hwn maes o law.
- 7.3 Bydd rhaid cael cyfraniad aelodau / uwch swyddogion er mwyn nodi'r anghenion penodol a darparu ffocws ar gyfer y maes gwaith hwn yn y dyfodol. Bydd angen penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor os ydi Ynys Môn yn bwriadu mynd i'r cyfeiriad hwn a chyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Bydd adroddiad yn seiliedig ar waith ymchwil manwl a thystiolaeth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn, yn dilyn trafodaeth yn y fforwm hwn.

8.0 Hyfforddiant i Aelodau

- 8.1 Mewn ymateb i gais yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio (Gorffennaf 12 2023) mae rhaglen hyfforddi wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer yr

aelodau. Bydd y sesiynau hyfforddi'n rhoi trosolwg o'r broses o baratoi'r cynllun datblygu a bydd sesiynau ychwanegol hefyd yn cael eu trefnu i edrych yn fanylach ar elfennau penodol o'r broses gan ganolbwyntio ar feysydd gwaith unigol.

- 8.2 Bydd y rhaglen hyfforddi lawn ar gyfer 2024-25 yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2024.

Rhaglen Waith y Tîm Polisi Cynllunio (hyd at fis Rhagfyr 2024)

Tasgau	Swyddog Cyfrifol	Amserlen Ddangosol	Camau Gweithredu	Sylwadau	Targed Dangosol	Risgiau	Costau
Cynllun Datblygu Lleol Newydd							
Cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr / Dirprwy Brif Weithredwr	Rheolwr Polisi Cynllunio	Ionawr 2024	Cyfarfod i drafod materion cyffredinol yn ymwneud â pharatoi CDLI newydd	Cyfarfod wedi'i gynnal a gweithgareddau/ targedau wedi'u cytuno			
Cyfarfod o'r Grŵp swyddogion	Rheolwr Polisi Cynllunio	Chwefror 2024	Angen cwblhau Cylch Gorchwyl y grŵp. Agenda drafft i'w chytuno gan y Prif Weithredwr a chynnal cyfarfod	Cylch Gorchwyl drafft ac amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun wedi cael eu paratoi i'w cytuno	Cyfarfodydd misol	Ni fydd y CDLI yn adlewyrchu blaenoriaethau datblygu'r Ynys oni bai bod pob gwasanaeth yn cael cyfle i gyfrannu	
Cytundeb Cyflawni	Rheolwr Polisi Cynllunio	Chwefror 2024 - Medi 2024	Mireinio'r drafft a baratowyd gan Gyngor Gwynedd cyn dod â'r cytundeb cydweithio i ben. Creu dogfen sy'n canolbwyntio ar Ynys Môn	Cyfeirio at Gynllun y Cyngor i osod cyd-destun ac amlygu'r blaenoriaethau allweddol yn lleol	Y Cyngor llawn i gymeradwyo'r Cytundeb yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024	Ni fydd yn bosib bwrw 'mlaen â'r CDLI heb gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gytuno gan LIC	
Cynllun Cynnwys Cymunedau	Rheolwr Polisi Cynllunio	Chwefror 2024 - Medi 2024	Cynllun drafft ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid ar y Cytundeb Cyflawni a'r CDLI	Rhaid bod mor gynhwysol â phosib i sicrhau bod y CDLI yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol	Rhan o raglen gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni	Mae LIC yn hyrwyddo cynnwys cymunedau. Risg na fydd y CDLI yn cynrychioli anghenion yr Ynys oni bai ein	

						bod yn ymgysylltu'n ddigonol	
Cronfa Ddata Cysylltiadu	Cynorthwydd Polisi Cynllunio	Chwefror 2024	Sicrhau ein bod ni'n derbyn y rhestr o gysylltiadau gan Gyngor Gwynedd. Diweddarau'r rhestr cylchlythyru ac ychwanegu ati. Sicrhau bod y rhestr yn cael ei diweddau'n llawn cyn ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni yn y lle cyntaf ac yna ar y camau dilynol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun.	Laura i gydlynu gyda Heledd fel y cytunwyd yn y cyfarfod ar 15/1/24. Wedi cychwyn ar y gwaith o ddiweddarau'r rhestr	I'w gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2024	Bydd rhestr gyfyngedig o gysylltiadau yn amharu ar gynhwysiant a datblygiad y polisi	
Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd							
Staff	Swyddogion Polisi Cynllunio	Chwefror 2024 – Mawrth 2024	Dechrau monitro gweithgareddau fel sail i Adroddiad Monitro Blynyddol 2024 ac fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI newydd	AL, HR a LP i ddechrau monitro datblygiadau tai sydd wedi cychwyn / eu cwblhau. I'w drafod yn ystod y cyfarfod tîm yr wythnos nesaf o (20/1/24)	Gwaith monitro safleoedd i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024 a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r UDA / Pwyllgor Polisi Cynllunio ym mis Medi 2024 i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i LIC	Oni bai ein bod ni'n monitro gweithgareddau ni fyddwn yn gallu cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas â'r Adroddiad Monitro blynyddol ac ni fydd gennym dystiolaeth i lywio polisiâu/datblygu'r cynllun yn y dyfodol	

Ymgynghor wyr fframwaith	Rheolwr Polisi Cynllunio / Rheolwr Cyflawni'r Rhaglen Ynys Ynni		Cysylltu i weld a oes modd iddynt ein cynorthwyo mewn perthynas â monitro'r CDLIC cyfredol	Ar y dechrau byddwn angen cymorth allanol i baratoi Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024. Wedi hynny byddwn angen cymorth allanol i gwblhau tasgau penodol, arbenigol yn gysylltiedig â chynhyrchu CDLI		Bydd diffyg cymorth yn arwain at fonitro aneffeithiol	
Hyfforddiant							
Hyfforddian t i Aelodau	Rheolwr Polisi Cynllunio / Darparwyr allanol	Misol i gyd- fynd â chyfarfodydd o'r Pwyllgor	Paratoi a chyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer yr aelodau	Bydd y sesiynau'n rhoi trosolwg o'r gwaith o baratoi'r cynllun ac yna mwy o fanylder ar y camau penodol wrth i'r broses fynd rhagddi		Heb hyfforddiant digonol ni fydd gan yr aelodau ddigon wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau doeth	
Hyfforddian t i swyddogion	Rheolwr Polisi Cynllunio	Ar y gweill	Trefnu hyfforddiant addas ar gyfer y swyddogion newydd	Darparu hyfforddiant digonol i ddatblygu dealltwriaeth ynghylch materion polisi. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei hwyluso gan ddarparwyr mewnol ac allanol	Swyddogion wedi cael lle ar yr hyfforddiant gan Gymorth Cynllunio Cymru ar Gynlluniau Datblygu Strategol. Bydd y Rheolwr Polisi Cynllunio yn mynychu cynhadledd ar Gynllunio gofodol, iechyd cyhoeddus a pholisïau'r gwasanaeth iechyd: cyfle i wella iechyd a mynd i'r afael ag anhydraddoldeb	Methu â chynnal datblygiad personol parhaus a datblygiad staff	
Ail gartrefi a llely gwyliau tymor byr							
Erthygl 4	Cydlynnydd Her Tai Lleol	Ar y gweill	Y Cydlynnydd i edrych ar ddogfennau tystiolaeth gan	Rhaid cael cyswllt ystyrlon ag uwch swyddogion a gwleidyddion i gadarnhau'r cyfeiriad ar gyfer bwrw 'mlaen		Rhaid cael ffocws a chyfarwyddyd er mwyn paratoi'r adroddiad. Rhaid	

			Gyngor Gwynedd fel y gallwn ddechrau casglu ein tystiolaeth ein hunain	â'r gwaith hwn. Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi penderfynu cyflwyno'r Cyfarwyddyd		i'r ymchwil fod yn drylwyr a chadarn er mwyn cynnig argymhellion	
Gwleidyddol							
Pwyllgor Polisi Cynllunio	Prif Swyddog Cynllunio / Rheolwr Polisi Cynllunio	Misol	Paratoi papurau i ddiweddarau'r pwyllgor ar hynt y broses o baratoi CDLI	Gwaith cychwynnol i ymorol am staffio a pharatoi'r Cytundeb Cyflawni a'r cynllun cynnwys cymunedau	Mae'n hanfodol bod yr aelodau'n cyfrannu er mwyn arwain y gwaith o baratoi'r CDLI		
Pwyllgor Gwaith Anffurfiol	Rheolwr Polisi Cynllunio	Cyn gynted â phosib	Cynnal trafodaethau ffurfiol mewn perthynas â chyfarwyddyd strategol y CDLI Angen deall y sefyllfa mewn perthynas ag Erthygl 4	Bydd Cynllun y Cyngor yn llywio'r prif gamau gweithredu a rôl y gwasanaeth cynllunio o ran cyflawni			
Rhanbarthol							
Cynllun Strategol Gogledd Cymru	Rheolwr Polisi Cynllunio	Ar y gweill	Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun strategol yn absenoldeb tîm penodol ar hyn o bryd	Rhaid cyfrannu at drafodaethau / camau gweithredu fel bod llais Ynys Môn yn cael ei chlywed		Os na fyddwn yn cyfrannu mae'n bosib na fydd Ynys Môn yn cael ei chynnwys yn ddigonol ar lefel strategol	
Mynychu cyfarfodydd Swyddogion Polisi Gogledd Cymru	Rheolwr Polisi Cynllunio / Arweinydd Tîm	Misol neu yn ôl galw	Diweddarau cydweithwyr ar hynt y gwaith o baratoi'r cynllun a gweithgareddau cysylltiedig				
Cyffredinol							

Ymateb i ymgynghoriadau ar Reoli Datblygu	Swyddogion Polisi Cynllunio	Ar y gweill	Sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi i swyddogion Rheoli Datblygu mewn perthynas ag ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio	Neilltuo gwahanol ardaloedd daearyddol i swyddogion unigol er mwyn ymateb i geisiadau cynllunio		Penderfyniadau gwael	
---	-----------------------------	-------------	--	---	--	----------------------	--

CYLCH GORCHWYL Y TÎM PROJECT POLISI CYNLLUNIO**Pwrpas**

Sicrhau bod y Cyngor cyfan yn cyfrannu at ac yn llywio'r gwaith o baratoi'r CDLI newydd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion yr Ynys a'r heriau.

Darparu arweiniad a chyfarwyddyd mewn perthynas â llunio Strategaeth a Ffeirir i'w mabwysiadu wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.

Amcanion

1. Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â materion polisi cynllunio
2. Craffu a darparu cyfarwyddyd a chyngor ar lefel strategol a gweithredol
3. Darparu cyngor, mewnbwn a chyfarwyddyd proffesiynol a thechnegol, mewn perthynas â buddiannau gwahanol wasanaethau yn cynnwys goblygiadau cyfreithiol, ariannol a llywodraethu
4. Nodi ac adolygu'r risgiau, materion, heriau a chyfleoedd
5. Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a phrosesau'r Cyngor
6. Nodi'r dibyniaethau rhwng Gwasanaethau (e.e. TGCh)

Aelodaeth

1. Prif Weithredwr
2. Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 (neu ddirprwy)
3. Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid (neu ddirprwy)
4. Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (neu ddirprwy)
5. Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
6. Prif Swyddog Cynllunio

Bydd swyddogion yn cael eu gwahodd i ddarparu mewnbwn technegol ac arbenigol yn ôl y galw.

Swyddogaethau

Dehongli'r polisi cynllunio cenedlaethol o safbwynt y Cyngor a'r Gwasanaeth.

Bydd y Grŵp yn darparu mewnbwn technegol a barn ar:

- Ddogfennau drafft a fydd yn cael eu paratoi gan y Tîm Polisi Cynllunio fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyn gofyn am gymeradwyaeth wleidyddol a / neu farn y cyhoedd.
- Sylwadau'r cyhoedd ac unrhyw grwpiau rhanddeiliaid /fforymau yn dilyn gwaith ymgysylltu neu ymgynghoriadau cyhoeddus statudol wrth baratoi'r Cynllun ac ymateb posib y Tîm Polisi Cynllunio.
- Dogfennau drafft fel rhan o'r broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol cyn ymgynghori'n gyhoeddus arnynt.
- Sylwadau'r cyhoedd ac unrhyw grwpiau rhanddeiliaid / fforymau yn dilyn gwaith ymgysylltu neu ymgynghoriadau cyhoeddus statudol wrth baratoi'r Canllawiau ac ymateb posib y Tîm Polisi Cynllunio.

- Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI.
- Dogfennau a fydd yn cael eu paratoi fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI.

Rhaglen

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad a gyda chytundeb Cadeirydd y Grŵp, yn gyfrifol am gytuno'r rhaglen.

Cydlynu

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd pob mis / yn ôl y galw.

Os nad yw'r Cadeirydd ar gael, bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cyflawni'r rôl yma, a bydd yn gyfrifol am gydlynu gyda'r cadeirydd cyn ac ar ôl cyfarfodydd.

Yr unig gofnod o'r cyfarfod fydd y log gweithredoedd a fydd yn cael ei rannu cyn pen 3 diwrnod gwaith.

Dull Adrodd

Bydd adborth a barn y Grŵp yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio.